**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mehefin 29ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Ian W Griffith

Presennol: Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Elen H Edwards, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, D Gwynfor Davies, Ifor G Edwards, Cynghorydd Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

55.1 COFFÂD I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD TECWYN EVANS
Cyfeiriodd y Cadeirydd at golled enfawr i'r Cyngor a'r gymuned ym marwolaeth y Cynghorydd Tecwyn Evans, Gwytherin yn ddiweddar. Roedd yn ŵr dibynadwy ac yn ffyddlon i'r Cyngor Cymuned ers 46 o flynyddoedd. Bydd bwlch mawr ar ei ôl a bydd y Cyngor yn colli ei gyngor doeth ar amryw o faterion. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb sefyll er coffadwriaeth iddo.

55.2 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

55.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Mai 25ain a gwelwyd bod enw Diane M Roberts wedi ei adael allan o gyfarfod safle Cyf. 54.9.3. Wedi newid hyn PENDERFYNWYD yn unfrydol derbyn y cofnodion fel cofnod cywir.

55.4 MATERION YN CODI O'R COFNODION
55.4.1 CYNRYCHIOLWYR – oherwydd bod sedd wag ar y Cyngor PENDERFYNWYD i drafod cynrychiolwyr yn dilyn llenwi'r sedd.
55.4.2 DARREN MILLAR AC – roedd yn rhydd i ddod i gyfarfod o'r Cyngor ar Nos Fawrth, Gorffennaf 26ain a PHENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau hyn.

55.5 MATERION FFYRDD – derbyniwyd copïau o lythyrau gan Mr David Jones AS i Gyngor Conwy ac ateb gan Bennaeth Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn nodi bod cais wedi ei wneud am arian i drwsio'r bont dros Afon Gall, Pandy Tudur a gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn Hydref 2016. Hefyd bod gwaith ar y gweill i wella problemau trafnidiaeth drwy'r pentref a chreu maes parcio dros dro yng nghae Cartref yr Hen Ficerdy. Adroddodd y Cynghorydd D O Roberts bod yr Adran yn bwriadu dechrau ar y maes parcio a'r llwybr yr wythnos yn dechrau 4ydd Gorffennaf a bod y gwaith ar y bont yn mynd allan i tendr erbyn hyn. Adroddodd Emlyn Williams bod sefyllfa Cartref yr Hen Ficerdy yn ddifrifol gan eu bod wedi colli nifer o breswylwyr ac yn cael trafferth cael rhai newydd oherwydd sefyllfa'r bont.
Nid oedd unrhyw wybodaeth pellach ynglŷn a phont Hendre Ddu.

55.6 TOILEDAU LLANGERNYW – deellir bod arwydd Toiledau yn cael ei osod ger y safle yn y dyfodol agos. Derbyniwyd ebost gan yr Adran Ffyrdd ynglŷn ag arwydd twristiaeth brown yn Llangernyw a gwelwyd na allem roi mwy na thri arwydd bach arno. PENDERFYNWYD yn unfrydol i ofyn am arwydd Lle bwyta, toiledau a man o ddiddordeb hanesyddol. Roedd Elen Edwards yn mynd i siarad â Steve Teale am yr arwydd yn fuan a'r Cynghorydd D O Roberts yn cynnig trafod y Pwynt Twristiaeth gyda swyddog twristiaeth yng Nghonwy. Nid oedd Un Llais

Cymru yn medru ein cynrychioli fel cyfreithiwr ac roedd D O Roberts am gael gair â'r Adran Gyfreithiol ynglŷn a hyn.
Roedd handlen ar un o'r toiledau wedi torri – Ann Vaughan am gysylltu.

55.7 CYFARFOD RHANBARTH UN LLAIS – ni allai Diane Roberts fynychu'r cyfarfod ac roedd wedi anfon ymddiheuriad. Adroddodd bod y Swyddog Datblygu Luned Evans yn cydymdeimlo â ni fel Cyngor ar golli Tecwyn Evans a'u bod fel Pwyllgor Ardal yn cydnabod ei gyfraniad pwysig i'r cyfarfodydd.

55.8 CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG – cafwyd trafodaeth a gofynnwyd i bawb gael golwg ar y fersiwn diwygiedig cyn y cyfarfod nesaf . Y Clerc i wneud copïau papur o'r ddogfen i 5 aelod. Hefyd i ofyn i Darren Millar a wyddai pam fod y gair 'Diddordeb' wedi ei newid i 'Buddiannau' yn y Côd.

55.9 DATGANIAD ARIANNOL Y CYNGOR CYMUNED A DATGANIAD LLYWODRAETHU 31 MAWRTH 2016 – adroddodd y Clerc i'r gwaith gael ei gwblhau ar y cyfrifon a bod yr Archwilydd Mewnol Gwenda Cooper wedi archwilio'r dogfennau. Cyflwynwyd y datganiadau i'r Cyngor ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Codwyd y cwestiwn pam bod angen dewis Archwilwyr Allanol o'r tu allan i Gymru gan godi'r costau. PENDERFYNWYD holi Darren Millar AC am hyn hefyd.

55.10 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD yn unfrydol i beidio cyfrannu at Shelter Cymru.

55.11 GOHEBIAETH – cyfeiriwyd at ohebiaeth ynglŷn â Caeau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf; Leonard Cheshire Disability; Porth Cyllid CVSC; Prosiectau Tŵf Gwyrdd Cymru

55.12 CYNLLUN PARTNERIAETH BAG HALEN – derbyniwyd cynnig unwaith eto eleni gan Gyngor Conwy i ymuno â'r cynllun sef bod yn gyfrifol am wasgaru halen mewn mannau cymunedol lle nad yw loriau'r Sir yn cyrraedd. PENDERFYNWYD i beidio ymuno â'r cynllun ond cynigwyd fod y mater yn mynd ar Agenda'r cyfarfod nesaf ac i weld a fyddai'r Cyngor Sir yn bod yn gyfrifol am yswiriant.

55.13 CWRS CYMDEITHAS CLERCOD YN LLANDUDNO – MEDI 14EG – PENDERFYNWYD i'r Clerc fynychu'r cwrs a'r Cyngor i dalu'r costau.

55.14 MATERION LLEOL
55.14.1 Diolch i Ann Vaughan am blannu blodau yn Llangernyw – gan nad yw'n debygol bydd Cyngor Conwy yn darparu. PENDERFYNWYD gofyn i aelodau'r Clwb Garddio yng Ngwytherin a Phandy Tudur os hoffent lenwi'r tybiau cyffelyb a rhoi bil i'r Cyngor Cymuned.
55.14.2 Trafodwyd pa mor hir dylid aros yn dilyn cyflwyno cais neu gwyn i'r awdurdodau cyn mynd ar ôl y mater. Gofynnwyd i'r Clerc gadw cofnod o gwynion/ceisiadau a nodi beth yw'r ymateb a'i drafod ymhob cyfarfod o'r Cyngor.
55.14.3 Rheiliau ar ochr ffordd A548 yr Ardd Goffa angen sylw ac angen torri'r tyfiant.
55.14.4 Gofynnwyd beth yw'r sefyllfa gyda'r Hen Efail, Llangernyw ac atebodd Cyngh Dilwyn Roberts bod pum mlynedd wedi ei roi i'r perchennog wneud y gwaith o ddiogelu'r safle.
55.14.5 Angen atgoffa'r Cyngor Sir eleni i dorri ffordd fain Plas yn Blaenau, Pandy Tudur.
55.14.6 Llinell ffôn Rhydeden ddim yn gweithio ers tro – angen cysylltu'n uniongyrchol ag Alwen Mair Williams, Cyfarwyddwr BT yng Nghymru ac i ofyn beth yw'r sefyllfa ynglŷn â Band Eang Cyflym yn ardal Llangernyw. Hefyd i gysylltu â Darren Millar ynglŷn â'r mater.

55.14.7 Cyfeiriwyd at daith feiciau 'Tour de Myfs' oedd yn cychwyn yn fuan – taith gan nifer o'r ardal er cof am Myfyr Thomas, Nebo tuag at Ambiwlans Awyr.
55.14.8 Angen holi Eglwys Bresbyteraidd Cymru ynglŷn a throsglwyddo Mynwent Capel Seilo, Gwytherin a holi a oes Cofrestr Claddu.
55.14.9 Angen holi'r Gofrestrfa Tir unwaith eto ynglŷn a chofrestru cwt yr hers a mynwentydd.
55.14.10 Gwrych wedi gordyfu rhwng Gell a Helmydd.
55.14.11 Adroddodd y Clerc bod panel Taith Pererinion Pandy Tudur ar ei ffordd.
55.14.12 Hysbyswyd bod cyfarfod dadorchuddio arwydd Yr Ardd Gerrig, Llangernyw ar bnawn Iau, Gorffennaf 28ain am 2 o'r gloch a bod gwahoddiad i aelodau'r Cyngor.

55.15 BILIAU

| | |
|---|---|
| D Evans (Ail a Thrydydd Toriad Mynwentydd a strimio Gwytherin) | £870 |
| Cyngor B S Conwy (Scipiau cymunedol) | £666 |
| R O Davies (Gosod 'mesh' haearn ger Toiledau Llangernyw) | £222 |
| Ann Vaughan (Blodau i Langernyw) | £53.14 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 y.h.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ..G A Jones...................... Dyddiad ..26.7.16................................*

Community Council Meeting was held on Wednesday, June 29th 2016 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Ian W Griffith

Present: Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Elen H. Edwards, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, D Gwynfor Davies, Ifor G Edwards, Cllr Dilwyn O Roberts & Clerk.

55.1 COMMEMORATION TO THE LATE COUNCILLOR TECWYN EVANS
The Chair referred to a huge loss to Council and the community in the recent death of Councillor Tecwyn Evans, Gwytherin. He was a trustworthy man and loyal to the Community Council for 46 years. There will be a large gap and the Council will miss his wise advice and counsel on a variety of matters. The Chair asked everyone to stand in his rememberance.

55.2 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

55.3 MINUTES - looked at minutes of 25th May and found that Diane M Roberts's name had been omitted from the site meeting Ref. 54.9.3. After amending the record RESOLVED unanimously to accept the minutes as a correct record.

55.4 MATTERS ARISING
55.4.1 REPRESENTATIVES – due to a vacanct seat on the Council RESOLVED to discuss representatives after filling the seat.

55.4.2 DARREN MILLAR AM - he was free to attend a meeting of the Council on Tuesday, July 26th and RESOLVED unanimously to confirm this.

55.5 HIGHWAY MATTERS - received copies of letters from Mr David Jones MP to Conwy Council and reply from Head of Department for Environment, Roads and Facilities noting that application has been made for money to repair the bridge over the River Gall, Pandy Tudur and hoped to complete the work by October 2016. Also that work is underway to improve transport problems through the village and create a temporary car park in the Old Vicarage Nursing Home field. Councillor D O Roberts reported that the Department intends to start the car park and the path the week beginning July 4th and that the work on the bridge goes out to tender now. Emlyn Williams reported that the Old Vicarage Home was in a serious situation because they have lost a number of residents and have trouble getting new ones due to closure of the bridge.
There was no further information regarding the Hendre Ddu bridge.

55.6 LLANGERNYW TOILETS - Toilet sign understood to be erected near the site in the near future. We received an email from the Highways dept. re brown tourist sign in Llangernyw and found that we could not have more than three small emblems on it. RESOLVED unanimously to request a sign for eatary, toilets and places of historical interest. Elen Edwards was going to talk to Steve Teale about the sign soon and Councillor D O Roberts to discuss a Tourist Information Point with tourism officer in Conwy. One Voice Wales were not able to represent us legally re transfer of toilets and D O Roberts to speak to the Legal Department regarding this.
There was a broken handle on one of the toilets - Ann Vaughan to contact.

55.7 ONE VOICE WALES REGIONAL MEETING - Diane Roberts could not attend the meeting and had sent an apology. She reported that Luned Evans the Development Officer sympathized with us as a Council with the loss of Tecwyn Evans and the Regional Committee recognizes his important contribution to the meetings.

55.8 REVISED CODE OF CONDUCT - there was discussion and everyone was asked to view the updated version before the next meeting. Clerk to make paper copies of the document for 5 members. Also to ask if Darren Millar knew why the word 'interest' is changed in the Welsh version to 'benefit’.

55.9 FINANCIAL STATEMENT OF THE COMMUNITY COUNCIL AND GOVERNANCE STATEMENT 31 MARCH 2016 - the Clerk reported that the work was completed on the accounts and that the Internal Auditor Gwenda Cooper had examined the documents. The statements were submitted to the Council and signed by the Chairman. The question was raised why the External Auditors came from outside Wales and costs were higher. RESOLVED to aks Darren Millar AM to inquire about this too.

55.10 FINANCIAL APPLICATION - RESOLVED unanimously not to contribute to Shelter Cymru.

55.11 CORRESPONDENCE - reference to correspondence regarding Centenary Fields World War I; Leonard Cheshire Disability; Funding Portal CVSC; Wales Green Growth Projects

55.12 SALT BAG PARTNERSHIP PLAN - received invitation again this year from Conwy Council to join the scheme which is to be responsible for dispersing salt in communal areas where the County Gritting lorries do not reach. RESOLVED not to join the scheme but proposed that the

matter will go on the next Agenda and to see whether the County Council would be responsible for insurance.

55.13 CLERKS (SLCC) COURSE IN LLANDUDNO - SEPTEMBER 14TH - RESOLVED that the Clerk attends the course and the Council to pay the costs.

55.14 LOCAL MATTERS
55.14.1 Thanks to Ann Vaughan for planting flowers in Llangernyw – it is not likely that Conwy Council will provide. RESOLVED to ask members of Gardening Club in Gwytherin and Pandy Tudur if they would like to fill the similar tubs and send the bill to the Community Council.
55.14.2 Discussed how long to wait after a request or complaint is sent to the authorities before going after the matter. The Clerk was asked to keep a record of complaints / applications and responses and to report back and discuss at every meeting of the Council.
55.14.3 Railings on roadside A548 of Memorial Garden needs attention and growth needs cutting.
55.14.4 It was asked what the situation is with the Old Smith, Llangernyw. Cllr Dilwyn Roberts replied that five years had been given to the owner to protect the site.
55.14.5 Need to remind the County Council this year to cut grass on Plas yn Blaenau road, Pandy Tudur.
55.14.6 Rhydeden phone line not working for some time - need to directly contact Alwen Mair Williams, Director of BT in Wales and to ask what is the situation regarding Super Fast Broadband in Llangernyw. Darren Millar AM also to be contacted re the matter.
55.14.7 Referred to the ‘Tour de Myfs' bike ride starting soon - a trip by a number of people from the area in memory of Myfyr Thomas, Nebo - proceeds to Air Ambulance.
55.14.8 Need to inquire with the Presbyterian Church of Wales re transferring Seilo Chapel Cemetery and to inquire about the Burial Register.
55.14.9 The Clerk to check again with the Land Registry re registration of hearse shed and cemeteries.
55.14.10 Overgrown hedge between Gell and Helmydd.
55.14.11 The Clerk reported that Pandy Tudur Pilgrims Way panel is on its way.
55.14.12 Informed that the unveiling of a new sign for The Rockery, Llangernyw would be held on Thursday, July 28th at 2 pm and an invitation was offered to members of the Council.

55.15 BILLS
D Evans (Second and Third Cut to Cemeteries and strimming Gwytherin) £ 870
Conwy C B Council (Community Skips) £ 666
R O Davies (Iron mesh on rails near Llangernyw Toilets) £ 222
Ann Vaughan (Flowers for Llangernyw) £ 53.14

The meeting concluded at 9.40 pm

Approved the Minutes ...G A Jones........................... Date ....26/7/16... .........................